3.

Mae torf yn beth oriog.
Mae'n gweiddi'n gynddeiriog
Am waed y trugarog,
Dieuog fab y dyn,
Mae'n poeri,
Mae'n dyrnu,
Mae'n rhwygo croen Iesu,
A hoelio'i gorff fyny ar groes bren ar y bryn.

Ac wedi'r hoelio
A gwawdio'r gwedd,
A lladd yr oen,
Mae'r boen a'r bedd

Yn darfod,
Troi'n gyfamod hedd,
Trugaredd tragywydd.

Mae'i farw e ar Galfarî
Er hyn yn dy achub di
A fi,
Mae'n dadwneud ein hoes,
A'i hailwneud hi
Am byth i ni
Yn newydd.